DATGANIAD I'R WASG CLILC

Dydd Llun 1 Ebrill 2019

Please click here for English

Mwy o gefnogaeth i rieni a gofalwyr plant awtistig wedi diagnosis

Bydd ffilm newydd sy'n cael ei lansio heddiw gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sydd yn gobeithio cefnogi rhieni a gofalwyr plant awtistig sydd newydd dderbyn diagnosis.

Mae adborth gan bobl awtistig a rhanddeiliaid eraill yn dangos bod bwlch o ran cefnogaeth yn y cyfnod yn syth wedi diagnosis. Bydd clinigwyr a gweithwyr broffesiynol yn y maes yn gallu cyfeirio rhieni a gofalwyr at y ffilm wedi iddyn nhw dderbyn diagnosis, a bydd hefyd yn hawdd i'w gyrchu ar-lein.

Cafodd y ffilm ei gomisiynu gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol – gynt y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol – a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gynhelir gan CLILC, mewn partneriaeth agos â Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Huw David (Penybont ar Ogwr), Llefarydd CLILC dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

"I rieni a gofalwyr, bydd y broses o eu plentyn yn derbyn diagnosis o awtistiaeth yn aml yn gallu bod yn brofiad dryslyd o ganlyniad i'r prinder dealltwriaeth cyffredinol o awtistiaeth fel cyflwr.

"Cafodd y ffilm ei chomisiynu gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn ymateb yn uniongyrchol i ymateb gan bobl awtistig nad oes digon o gefnogaeth ar gael yn syth wedi diagnosis. Rwy'n gobeithio y bydd y ffilm yma'n helpu i leddfu meddwl rhieni a gofalwyr, ac i ddangos bod gwybodaeth ar gael i'w helpu i ddeall beth y mae'r diagnosis yn ei olygu a chyngor ymarferol ar gyfer byw o ddydd-i-ddydd."

"Yn ychwanegol i'r ffilm, mae gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ystod o ddeunyddiau defnyddiol ar gael ar www.asdinfowales.co.uk i gefnogi unigolion awtistig a'r rhai hynny o'u cwmpas."

-DIWEDD-

Nodiadau i Olygyddion

Gellir gweld y ffilm ar: https://www.asdinfowales.co.uk/tv

Mae'r wythnos hon yn nodi Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, yn rhedeg o 1 - 7 o Ebrill. Nôd yr wythnos yw i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr ac i hybu gwell dealltwriaeth ohono.

Os oes gennych chi ymholiadau cysylltwch â:

- Sara Harvey
  Arweinydd Strategol Cenedlaethol dros Awtistiaeth
  02920 468655 / 07880 794 322

- Wendy Thomas
  Arweinydd Proffesiynol Cenedlaethol dros Awtistiaeth
  029 2046 8517 / 07717 822479

www.ASDinfoWales.co.uk